

Fframwaith Cymwyseddau Iaith Gymraeg

Y wers wnes i addysgu i'r grŵp oedd gwers mathemateg, a'r testun tebygolrwydd.

Wnes i gyflwyno graddfa tebygolrwydd i'r grŵp, a chyflwyno'r eirfa ganlynol-amhosib, annhebygol, siawns cyfartal, tebygol a sicr. Holais iddynt beth oedd y geiriau yn golygu, gan ofyn iddyn nhw yn dilyn y cylch oeddent yn eistedd ynddi o gwmpas y bwrdd. Wedyn, wnes i ofyn iddynt i blotio'r eirfa ar y raddfa ar ôl trafod fesul grŵp yn lle'r oedd angen i'r eirfa fynd. Roedden nhw'n defnyddio a thrafod yr eirfa wrth iddynt blotio, yn trafod yr eirfa yn nhermau mwy syml wrth iddynt ddysgu ac adnabod beth oedd y geiriau yn ei olygu.

Wedyn, wnes i roi brawddegau iddynt, ac roedd angen iddyn nhw gysylltu'r brawddegau gyda'r eirfa gywir, e.e. y frawddeg 'beth yw tebygolrwydd yr haul yn codi bore 'fory?', a'i chysylltu â'r tebygolrwydd cywir, sef sicr.

Teimlais fod y wers wedi bod yn llwyddiannus, gyda'r cyfranogwyr yn dysgu am debygolrwydd a'r eirfa oedd yn cyd-fynd. Wnaeth y cyfranogion fwynhau ysgrifennu'r eirfa eu hun, ac ymgysylltu'r brawddegau gyda'r tebygolrwydd cywir. Petawn yn gallu gwneud y wers eto, byddwn wedi gofyn i'r cyfranogion i ysgrifennu brawddegau eu hun er mwyn ymarfer ysgrifennu a sillafu, a hefyd iddyn nhw ddod i ddeall y termau yn ddyfnach, yn hytrach 'na threfnu fy mrawddegau i. Dywed Graham Donaldson yn Dyfodol Llwyddiannus (2015) ddylai dysgwyr dysgu drwy ddefnyddio profiadau go iawn, felly fe ddefnyddiais esiamplau go iawn, ac roedd hwn yn dda yn fy marn i am ei fod yn galluogi'r cyfranogwyr i ddelweddu'r cwestiynau a dod i ddeall tebygolrwydd yn gyntaf, cyn iddynt symud ymlaen i dermau mwy technegol a defnyddio rhifau a.y.b. Wnes i addysgu'r wers yma yn wreiddiol gyda dosbarth blwyddyn 6 ar fy PAP1, ac oedd yn dasg agoriadol ar gyfer gwers gyda grŵp ffocws. Wnes i addasu'r dasg o'r gwreiddiol fel bod y cyfranogwyr yn y wers dan sylw yn ysgrifennu'r eirfa, yn lle sticio'r eirfa i'r raddfa gyda 'Blu Tac'. Teimlais fod hwn yn well am ei fod yn rhoi cyfle iddynt ysgrifennu, a dod yn fwy ymwybodol â sillafu ag ynganiad, felly mi fyddai yn cofio hwn wrth symud ymlaen. Mae rhoi'r cyfle i'r disgyblion trafod ag ysgrifennu yn ehangu'r dysgu, yn lle cymryd y llwybr mwy hawdd, fel petai.

Fel soniais, treuliais gyfnod yn nosbarth blwyddyn 6 yn PAP1, yn ogystal â chyfnod gyda'r dosbarth derbyn, hefyd. Roedd yn ysgol Gymraeg mewn ardal di Gymraeg, a

doedd neb yn dod o gartrefi cyfrwng Cymraeg, felly roedd yn anodd addysgu iaith, yn enwedig yn y dosbarth derbyn lle'r oedd y plant yn dysgu Cymraeg o'r cychwyn. Yn y dosbarth derbyn, roeddwn yn addysgu patrymau iaith iddynt, e.e 'fy enw i yw', 'rydw i yn hoffi', 'dydw i ddim yn hoffi' a 'gaf i' i gychwyn, fel eu bod nhw'n dod i arfer â sut i ofyn cwestiynau syml, ac wedyn adeiladu ar yr iaith yn gyffredinol i helpu nhw i allu adeiladu brawddegau yn Gymraeg. Teimlais fod fi yn dweud y frawddeg yn gyntaf ac wedyn gofyn i'r disgyblion ail adrodd yn helpu nhw i ddod i ddeall yn well yn nhermau ynganiad a chael nhw i gofio. Roedden nhw hefyd yn pentyrru'r Gymraeg arnynt, a dim ond yn defnyddio'r Saesneg os oedd gwir angen, am eu bod nhw fel ysgol yn teimlo mai hwn oedd yn gweithio orau iddyn nhw wrth addysgu'r Gymraeg i'r plant oedd erioed wedi ei siarad o'r blaen. Roeddwn yn canu gyda'r disgyblion i helpu nhw i gofio pethau fel dyddiau'r wythnos, misoedd y flwyddyn a'r tymhorau, a hefyd i gofio anifeiliaid, am fy mod yn gallu cyfeirio yn ôl at y gân wrth i mi addysgu. Roeddwn hefyd yn defnyddio lluniau drwy addysgu geirfa newydd i'r dosbarth derbyn fel eu bod nhw'n gallu cysylltu llun â'r gair, a oedd yn llwyddiannus iawn. Wrth ddangos y llun, roedd hwn yn tanio rhywbeth y neu gof, neu fod nhw'n gallu cysylltu'r gair Saesneg, wedyn cofio'r gair Gymraeg wrth gofio'r un Saesneg yn gyntaf.

Cefais gyfle hefyd i ddefnyddio Tric a Chlic yn fy ngwersi, a oedd yn wych ac yn help mawr i'r disgyblion wrth iddynt gofio sut i ffurfio llythrennau i greu geiriau a brawddegau. Mae Tric a Chlic yn annog i ddisgyblion gofio 'brawddeg' bach i helpu nhw i gofio sut i ffurfio llythyren e.e brawddeg y llythyren 'a' yw o gwmpas, lan a lawr y ddeilen'. Mae hefyd lefelau gwahanol i'w gael wrth ddefnyddio felly mae'n bosib ymestyn y disgyblion yn fwy, yn ogystal â gosod Gwaith addas ar gyfer disgyblion sy'n ffeindio'n fwy anodd.

Yn anffodus, ni chefais lawer o gyfle i addysgu gwersi iaith Gymraeg gyda flwyddyn 6. Petawn yn gallu gwneud eto, mi fyddwn wedi hoffi addysgu ystod mwy eang o wersi, gan gynnwys Gymraeg. Denfyddiais iaith yng ngwersi fathemateg a gwersi gwyddoniaeth a thema, a wnes i addysgu gwers ar y treigladau, a'r treiglad meddal yn benodol. Teimlais bod treigladau'r disgyblion yn wan, felly oeddwn yn awyddus i weithio ar hwn a sicrhau gwellhad yn ansawdd eu iaith. Petawn wedi cael treulio fwy o amser gen yn y dosbarth, byddwn wedi hoffi gwneud fwy o wersi a gweithio ar y

treigladau eraill gyda'r disgyblion, a helpu nhw i ddeal y rheolau tu ôl i'r treigladau yn well, pe lythrennau sy'n treiglo'n feddal/trwynol/llaes a pham, a.y.b.

Peth arall ffeindiais yn wych a wnaeth gyfrannu at fy nysgu proffesiynol tipyn oedd addysgu gwersi mathemateg a gwyddoniaeth yn y Gymraeg. Pan oeddwn i yn yr ysgol fy hun, doeddwn i ddim yn cael gwersi mathemateg na gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, felly cyn i mi addysgu'r disgyblion, roedd angen i fi addysgu fy hun beth oedd y termau oeddwn yn ymwybodol o yn y Saesneg yn barod, ond nid yn y Gymraeg. Teimlaf fod hwn wedi fy helpu i fy ngwneud yn athro gwell am fy mod i yn dysgu rhywbeth newydd yn ogystal â'r disgyblion. Roeddwn yn mwynhau dysgu'r term yn Gymraeg am ei fod yn ehangu ar fy ngeirfa a fy iaith i.

Wnes i fwynhau yn fawr iawn y sesiynau iaith roedden ni'n cael yn y brifysgol, am ei fod yn fy atgoffa o'r rheolau iaith wnes i ddysgu yn yr ysgol, a hefyd 'mod i heb ddefnyddio'r iaith yn safonol ers ni, felly roedd yn braf cael y sesiynau 2 awr pob wythnos i fy ail hatgoffa. Doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r rheolau tu ôl i'r treigladau- roeddwn yn gallu treiglo'n naturiol wrth siarad, ond ddim yn gallu dweud a pa dreigladau oedd yn digwydd ar ba bryd a pham. Wnaethon ni gael sesiynau yn seiliedig ar y treigladau llaes, meddal, a trwynol, lle wnaethon ni ddysgu'r rheolau tu ôl i bob un. Dydy fy nhreigladau nawr dal ddim yn berffaith- mae Cysill dal i gywiro'r iaith ar adegau, ond nawr allaf ddeall pam mae Cysill wedi ei gywiro, a beth wnes i golli drwy ysgrifennu'r frawddeg.


Teimlaf fod y sesiynau wedi bod yn fuddiol iawn i mi wrth symud ymlaen gyda fy ngyrfa yn fy mod wedi cymryd beth wnes i addysgu yn y sesiynau a'i addysgu yn y dosbarth, a helpu'r disgyblion i ddeall yn yr un ffordd wnaeth y tiwtor fy helpu i ddeall. Rwyf nawr yn hyderus yn trafod enwau, berfau, adferfau, berfenwau, ansoddeiriau a.y.b gan ein bod wedi eu trafod yn y sesiynau, a wnes i ddefnyddio beth wnes i addysgu a'i addasu i fod yn wers ar gyfer blwyddyn 4 mewn cyfweiliad- roeddwn yn hyderus yn gwneud hwn am fy mod wedi ail-ddysgu'r Gwaith, ac fe ddefnyddiais y taflenni gwaith o'r sesiynau i fy helpu i gofio'r eirfa/terminoleg gywir, fel help i ofyn cwestiynau effeithiol, ac i gael cymorth gydag esiamplau, hefyd.

Atodiadau



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales



Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Alyssa Williams	Dosbarth:	Blwyddyn 6
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Mathemateg	Dyddiad:	20.01.20
Ffocws Gwers:	Tebygolrwydd		
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	• trosglwyddo sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau • egluro canlyniadau a gweithdrefnau yn gywir gan ddefnyddio ieithwedd fathemategol briodol • dewis a chymhwyso strategaethau gwirio priodol		
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Llythrennedd - cofio a defnyddio geirfa addas a'i sillafu'n gywir Rhifedd - trefnu tebygolrwydd yn y ffordd gywir, trefnu ar linell tebygolrwydd		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			
Gwahaniaethu- sicrhau bod y tasgau yn cael ei wahaniaethu yn gywir, ac adnabod gallu'r disgyblion.			
Strategaethau AaGD			

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):
Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:
- Beth yw tebygolrwydd - Sut ydyn ni'n mesur tebygolrwydd - Sut i gynllwynio tebygolrwydd ar raddfa - Terminoleg- sicr, tebygol, cyfartal, annhebygol, amhosib

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
• Dangos dealltwriaeth- beth yw tebygolrwydd • Gallu defnyddio'r eirfa a thermiolog yn gywir • Cynllwynio tebygolrwydd ar raddfa	• Dangos dealltwriaeth- beth yw tebygolrwydd • Defnyddio geirfa addas a cywir a sillafu yn gywir • Cynllwynio tebygolrwydd

Amser 60 munud	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
10 munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	- Cyflwyniad- beth yw tebygolrwydd? - Cyflwyno'r eirfa ganlynol; Sicr, tebygol, cyfartal, annhebygol, amhosib, ac fel yr ydyn yn defnyddio'r eirfa i ateb cwestiynau tebygolrwydd - Cyflwyno'r raddfa (0-1) a sut ydyn yn cynllwynio tebygolrwydd ar raddfa - Cyflwyno gêm Tebygolrwydd-paru'r datganiad gyda'r tebygolrwydd	- Cynnig gwybodaeth flaenorol- beth yw tebygolrwydd? Beth yw'r eirfa? - Deall yr eirfa a gallu adnabod beth mae'r eirfa'n eu golygu - Chwarae gêm tebygolrwydd- paru'r datganiadau gyda'r tebygolrwydd	- Graddfa tebygolrwydd - Gêm tebygolrwydd
40 munud Addysgu a Dysgu Craidd	- Cyflwyno'r dasg- plant i ddefnyddio eu llyfrau mathemateg- slips i ludo i mewn i lyfrau yn esbonio'r dasg - Cynorthwyo fel sy'n briodol	Copio'r raddfa i'w llyfrau, wedyn nodi rhif y cwestiwn ar y raddfa. Wedyn, nodi'r rhesymeg- Gogledd America (top)- 1. Mae Alana yn ysgrifennu pob llythyren o'i enw ar gardiau, wedyn mae	- Llyfrau gwaith - Graddfa tebygolrwydd

- Holi cwestiynau effeithiol- e.e 'ym mhle ar y raddfa mae hon yn cael ei roi?', 'beth yw ystyr y gair yna?' - Atgoffa o'r eirfa - Atgoffa o reol- 3 cyn fi	hi'n cymysgu nhw. Beth yw tebygolrwydd hi'n glanio ar lythyren A? 2. Mae dis yn cael ei daflu. Beth yw tebygolrwydd y dis yn glanio ar odrif? 3. Mae dis yn cael ei daflu eto. Beth yw tebygolrwydd y dis yn glanio ar rif 6 neu lai? 4. Mae 6 losin coch, 5 melyn, ac 1 gwyrdd mewn jar. Beth yw tebygolrwydd dewis un gwyrdd? 5. Mae 3 losin coch, 5 gwyrdd, a 4 melyn mewn jar. Beth yw tebygolrwydd dewis un pinc? Asia (grŵp canol) – 1. Mae dis yn cael ei daflu. Beth yw tebygolrwydd y dis yn glanio ar rif rhwng 1-6? 2. Mae dis yn cael ei daflu. Beth yw tebygolrwydd y dis yn glanio ar odrif? 3. Mae dis yn cael ei daflu. Beth yw tebygolrwydd y dis yn glanio ar rif 6 neu lai? 4. Mae 6 losin coch, 5 melyn, ac 1 gwyrdd mewn jar. Beth yw tebygolrwydd dewis un gwyrdd? 5. Mae 3 losin coch, 5	
---	--	--

		gwyrdd, a 4 melyn mewn jar. Beth yw tebygolrwydd dewis un pinc? Ewrop (gwaelod)- 1. Beth yw tebygolrwydd rollo rhif rhwng 1 a 6 ar ddis? 2. Beth yw tebygolrwydd mynd ar wyliau i Sbaen ym mis Awst, a bod hi'n bwrw glaw am yr wythnos gyfan? 3. Beth yw tebygolrwydd taflu darn arian, a glanio ar Pen? 4. Beth yw tebygolrwydd yr haul yn codi am 24 awr? 5. Beth yw tebygolrwydd dewis darn losin las mewn pecyn sydd â 15 darn glas a 2 darn pinc?	
10 munud Sesiwn Gloi	- Casglu a chrynhoi- adolygu gwaith y sesiwn - Tacluso'r dosbarth	- Crynhoi- gallu ateb cwestiynau ynglŷn â'r pwnc - Tacluso'r dosbarth	


Mae'n sicr bydd
diwrnod Nadolig ar y 25ain o
Ragfyr eleni.

Mae rholio dis a glanio ar rif
2 neu'n fwy yn debygol.

Mae taflu darn arian a glanio
ar ochr pen yn gyfartal.

~~Mae'n hysbysu~~
Mae'n bydd hi'n
bwrw eira ym mis Awst.

Mae'r lluniau uchod yn dangos y wers wnes i wneud yn y fideo, a hefyd yr adnoddau wnes i ddefnyddio yn y wers.



Wnes i greu'r adnoddau yma fy hun ar gyfer y dosbarth derbyn, ac oeddwn yn defnyddio nhw fel adnoddau i helpu'r disgyblion ffurfio llythrennau, helpu nhw gyda sillafu, ac i lanw bylchau lle'r oedd angen lladd amser cyn cinio/amser chwarae i gael y disgyblion i ddod i adnabod eu llythrennau yn well.

Nod y wers	I adnabod rhai technegau arddull, gan gynnig sylwadau ag atebion drwy ddarllen y gerdd Creu cyfres o symudiadau fel parau, ac wedyn dyfalu'r llinell mae grwpiau eraill yn gwneud
Meini Prawf Llwyddo	Adnabod a gallu rhoi esiamplau o arddull wrth i mi ateb cwestiynau Darllen y gerdd Dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer y dasg symud a chreu cyfres o symudiadau Gallu gwerthuso gwaith cyfoedion- 2 seren a dymuniad

	Cynllun Gwers Blwyddyn 3- Breuddwyd
Cyfnod agoriadol	Cyflwyno fy hun, mynd dros enwau'r disgyblion i ddod i adnabod nhw'n fras Cyflwyno'r wers- esbonio fy mod i fynd i ddarllen y gerdd, wedyn ein bod ni mynd i ddarllen y gerdd gyda'n gilydd, wedyn byddwn yn symud ymlaen at dasg ymarferol
Addysgu a Dysgu Craidd	Darllen y gerdd allan i'r dosbarth fy hun, wedyn darllen y gerdd gyda'r disgyblion llinell wrth linell gan ddefnyddio cwestiynau effeithiol i gael asesu gwybodaeth flaenorol. Disgyblion yn cael munud i feddwl, wedyn defnyddio partneriaid parabl i drafod geiriau neu linellau penodol yn y gerdd. Gofyn cwestiynau fel sut allwn ddangos y ferf 'rhedeg' gyda symudiad? Sut allwn ddangos 'tyllu' gyda symudiad? A.y.b. ↳ Symudiadau i helpu gyda dealltwriaeth Esbonio'r dasg- mewn parau/grwpiau, disgyblion yn cael llinell yr un. Peidio agor yr amlen na ddangos i neb arall y llinell sydd gyda chi. Mae angen i chi feddwl am gyfres o symudiadau i greu 'meim' o'r llinell, ac mae angen i bawb arall dyfalu beth yw'r llinell. 2 seren a dymuniad os oes amser. Bodiau dealltwriaeth i sicrhau bod pawb yn glir ynglŷn â'r dasg.
Sesiwn Gloi	Asesu dealltwriaeth- all rhywun ddweud wrtha i am un peth newydd maen nhw wedi dysgu yn y wers? Beth oedd yn rhwydd? Beth oedd yn anodd?


Beth yw odl- rhywun
roi esiampl?

Oes odl yn
y gerdd?

adnabod
technegau arddull

Oes 'na ferf
yn y llinell yma?
Beth yw berf?

Beth ~~ym~~ yw cymhar-
-iaeth? a.y.b



Breuddwyd

Fuest ti 'rioed ar geffyl gwyn
Yn gyrru ar garlam i fyny'r bryn
Nes neidio i fyny at gwmwl bach
A hofran yn hapus yn yr awyr iach
Cyn glanio yn ysgafn ar enfys hardd
A llithro i lawr i waelod yr ardd,
Tyllu am grochan o aur gwerthfawr iawn
I brynu cist drysor sy'n llwythog a llawn
O emau a pherlau môr-forwyn dlos?
Mi wnes i'n fy mreuddwyd yng nghanol y nos





Cynllun Gwers Cam 1


Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers



Darpar Athro	Alyssa Williams	Dosbarth:	Derbyn
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Iechyd a Lles Llythrennedd	Dyddiad:	05/11/19
Ffocws Gwers:	Diogelwch Tân Gwyllt		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Adnabod y wybodaeth addas sydd angen er mwyn gwneud y dasg yn gywir ac yn addas neu ddatrys y broblem. Defnyddio'r iaith gywir ac addas ar gyfer y dasg. Dangos dealltwriaeth o'r rheolau a gallu adrodd yn ôl i ddangos eu bod nhw wedi deall. Gallu adnabod ac ateb. Rheolau'r plant- llais y plentyn yn ogystal â'r rheolau sydd ar y poster. Dewis y rheol sydd mwyaf addas a briodol iddyn nhw. Gallu adnabod risgiau posib a dweud pam.		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Llythrennedd – cofio rheolau ac ysgrifennu, ehangu ar atebion a dweud rhesymau, sillafu, ffurfio llythrennau yn gywir a dechrau ffurfio brawddegau Rhifedd – cyfri rheolau Cymhwysedd Digidol – Defnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol		


Amser 1 awr	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref) Y	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad iechyd a Diogelwch) 1
10-15 munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Gofyn a oes unrhyw un yn mynd i weld tân gwyllt heno- os ydyn ni beth sydd angen arnom ni i fod yn ddiogel. Dangos y poster a mynd drwy'r rheolau. Gofyn iddyn nhw ail adrodd y rheolau.	Dweud beth ydyn nhw'n meddwl dylai'r rheolau fod- cynnig syniadau, llais y plentyn Ail adrodd y rheolau ar ôl fi i ddangos dealltwriaeth, ymarfer siarad Cymraeg a dod i adnabod y termau e.e sparkler, fireworks, Guy Fawkes yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg	Poster Diogelwch tân gwyllt
45 munud Addysgu a Dysgu Craidd	Cymorth a helpu'r grwpiau gyda geirfa ond dim gormod- cael y plant i feddwl dros eu hunain Cwestiynu beth sydd yn y lluniau i asesu dealltwriaeth y plant am y rheolau a ddysgwyd am ddiogelwch tân gwyllt	Tynnu llun a lliwio o un o'r rheolau ac ysgrifennu o dan y rheolau beth sydd yn y llun Coch- ysgrifennu gair sawl tro ar y dudalen i ymarfer ffurfio llythrennau, ac ysgrifennu ar linell. Athro yn ysgrifennu'r rheol- efallai disgybl yn mynd dros yr ysgrifen os oes amser? Eto	Papur gwyn gyda llinellau ar y gwaelod i'r plant cael ysgrifennu yn daclus ac ymarfer ysgrifennu ar y llinell

	ymarfer. Defnyddio Tric a Chlic i helpu nhw i gofio sut i ffurfio'n gywir. Melyn- ysgrifennu brawddeg fach gyda chymorth. Tric a Chlic, ymarfer ffurfio ar waelod y dudalen os oes angen Glas- ysgrifennu'r rheol gyfan gyda chymorth. Tric a Chlic.	
--	---	--



Ffocws Gwers:	<u>Diwrnod y Cofio, y Pabi Coch a Parch</u>
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	<u>Addysgeg – Hyrwyddo iaith newydd a chyflwyno'r Pabi coch iddyn nhw yn sicrhau ei bod ar lefel all y plant ddeall sydd ddim yn rhy gymhleth iddyn nhw. Bod yn sensitif</u> <u>Addysgeg – Mireinio a deall pam ydyn yn gwisgo Pabi coch i gofio am ryfel ac i gyflwyno parch iddyn nhw- beth yw parch a sut ydyn yn dangos parch?</u> <u>Dysgu Proffesiynol- ehangu ar ddealltwriaeth fy hun ynglŷn â'r Pabi coch, pam yr ydyn yn ei wisgo, dydd Sul y Cofio, bod pobl wedi mynd i ffwrdd i ryfel- rhai wedi dod nôl rhai wedi mynd i ffwrdd a ddim dod yn ôl</u>
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	<u>Llythrennedd – datblygu'r Gymraeg a defnyddio geiriau Cymraeg yn lle Saesneg. Ehangu ar iaith sydd gyda nhw yn barod. Sillafu a ffurfio llythrennau a brawddegau</u> <u>Rhifedd – cyfri Pabi. Amser- 11/11 am 11 o'r gloch. Munud o dawelwch</u> <u>Cymhwysedd Digidol - defnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol, iPads i dynnu lluniau o'r Pabis</u>

Amser 1 awr 15 munud	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
10 munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	<u>Dangos pabi iddyn nhw- gofyn a ydyn nhw'n gwybod beth yw e, cyflwyno geirfa Cymraeg 'pabi coch' a pham ein bod ni'n gwisgo Pabi. Pabi yn flodyn trist, gwisgo pabi i gofio am y bobl aeth i ryfel, ac am y bobl bu farw yn rhyfel. Cyflwyno fideo 'Remembrance day' sydd yn dangos lluniau o fabis mewn cae, milwyr, hen filwyr a.y.b. Dangos fideo 'Poppies in a field' sydd yn cyflwyno rhyfel mewn ffordd addas all y plant ddeall</u>	<u>Ceisio ateb am y Pabi a chofio'r eirfa- ail adrodd 'pabi coch' i sicrhau cofio. Gwrando a gwylio fideos ac ateb cwestiynau am y fideos Defnyddio'r geiriau yr ydynt wedi dysgu yn y wers</u>	<u>Fideos 'Remembrance Sunday' a 'Poppies in a Field'</u>
50 munud Addysgu a Dysgu Craidd	<u>Grŵp gyda fi, grŵp gyda chynorthwydd- peintio pabis gyda'r cynorthwydd (bydd y rhain yn cael eu gludo i mewn i'r llyfrau), tra bod y grŵp arall yn ysgrifennu ar waelod eu llyfrau yn barod (pabis yn cael ei gludo yn y canol ac ysgrifennu o dan) Grŵp coch- 'Dyma Pabi Coch' a ffurfio llythyren 'P', melyn- 'Dyma pabi coch, gwisgwn babi coch i gofio', glas- 'Dyma Pabi coch, rydym yn gwisgo pabi coch i gofio, mae pabi coch yn flodyn trist'. Grwpiau yn cyfnewid</u>	<u>Gwrando ar y cyfarwyddiadau- defnyddio lliwiau addas i beintio a dim cymysgu lliwiau Peintio'n ddaclus Adnabod llythrennau heb gymorth a dangos bod nhw'n gallu cysylltu synau gyda'r llythrennau Dweud beth maen nhw'n mynd i ysgrifennu wrtha- dangos bod nhw'n deall a gwybod beth maen nhw'n ysgrifennu amdano</u>	<u>Paent, brws, taflennu pabis coch er mwyn peintio, ffedog</u>



Ffocws Gwers:	Treigladd Meddal
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	- gwrando ar wybodaeth gymhleth gan roi ymatebion perthnasol, cymhellol a diddoro - amrywio strwythurau brawddegau yn hyderus a dewis o eirfa eang i fynegi gwybodaeth a theimladau mewn ffordd ddiddorol a chreadigol. - defnyddio ystod o dreigladau (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn gywir yn eu cyd-destun
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Llythrennedd – sillafu'n gywir, treiglo'n feddal a ffurfio brawddegau Rhifedd – cyfri ochrau, mesur onglau ac ochrau y trioglau Cymhwysedd Digidol – defnyddio iPads y dosbarth i uwchlwytho lluniau o'r gwaith i SeeSaw
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol) - Targed iaith- sicrhau fy mod yn cyflwyno gan ddefnyddio treigladau cywir a hunan wirio - Gwahaniaethu'n addas ar gyfer y grwpiau gallu gwahanol - Sicrhau fy mod yn cloi'r sesiwn yn gryf yn ogystal â chyflwyno gyda chyflwyniad clir	

Amser 1 awr	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
15 munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	- Pa fathau o dreigladau sydd i'w gael? - Mynd i fod yn sôn am y treigladd meddal yn y wers- pwy sy'n gwybod unrhyw beth am treigladd meddal? Pa lythrennau sy'n treiglo'n feddal? P → B, T → D, C → G, B → F, D → Dd, G → diflannu, Ll → L, Rh → R, M → F - PRYD ydyn ni'n treiglo'n feddal? Ar ôl 'yn', ar ôl arddodiaid, ar ôl ansoddeiriau ar ôl enw benywaidd- beth yw benywaidd? - Ysgrifennu'r treigladau ar y bwrdd fel cymorth - Gwrando ar gân Ysgol y Strade i gynorthwyo- cân i helpu ni gofio	- Gallu enwi a rhestru'r fathau gwahanol o dreigladau- treigladd meddal, trwynol a llaes - Ateb cwestiynau- pa lythrennau sy'n treiglo'n feddal, i ba lythrennau mae nhw'n treiglo- P, T, C, B, D, G, Ll, Rh, M - Cynnig atebion ar bryd ydyn ni'n treiglo'n feddal- ar ôl 'yn', ar ôl arddodiaid- gallu dweud beth yw'r arddodiaid- ar, at, am, i, o, trwy, dros, dan, gan, wrth, heb, hyd, ar ôl ansoddeiriau ar ôl enw benywaidd- dweud beth yw ansoddair a beth mae benywaidd yn ei olygu?	

45 munud Addysgu a Dysgu Craidd	I - Gwasgaru pawb i'w grwpiau- Gogledd America, Asia ac Ewrop. - Gweithio gyda grwp fel tasg ffocws- athrawes ddosbarth yn mynd a gweithio gyda grwp arall tra bod y grwp olaf yn gwneud yr her annibynnol - Cynorthwyo fel fydd angen- gofyn cwestiynau- e.e ai treigladau meddal yw hwnna? Ydy'r lythyren yna'n dreiglo'n feddal? Oes fwy o dreigladau yn y frawddeg yna, rwyf ti wedi colli? - Cylchdroi- sicrhau fod bawb ar dasg a fod bawb yn deall beth maen nhw'n gwneud, a bod y grwp annibynnol ar dasg hefyd a cheio eu bod nhw'n iawn- cynnig cymorth fel bod angen	Tasg 1 Gogledd America- Lluniwch dabl yn eich llyfrau yn nodi'r treigladau meddal i gynorthwyo chi gyda'r dasg. Ewch ymlaen i ysgrifennu'r brawddegau canlynol, gan ysgrifennu'r geiriau yr ydych yn treiglo mewn lliw gwahanol. - Mae dros mil o pobl yn byw yna. - Ar diwedd y blwyddyn yma bydd arholiad. - Aeth y car drwy twnnel yn cyflym. - Rhedodd Rhys i'r ysgol heb colli ei gwynt. - Cerddais at gwely yn y gornel a mynd i cysgu. - Cysgododd y bechgyn dan pont lydan tn y tref. - Dewch i'r parti i dathlu penblwydd y ferch bach. - Mae'r cath du yn pert. - Mae dy cot ar ei cadair. - Gan gwy ges di hwnna? Asia- Lluniwch dabl yn eich llyfrau yn nodi'r treigladau meddal i gynorthwyo chi gyda'r dasg. Ewch ymlaen i ysgrifennu'r brawddegau canlynol, gan ysgrifennu'r geiriau yr ydych yn treiglo mewn lliw gwahanol. Mae nifer y treigladau yn y brawddegau wedi ei ysgrifennu drws nesaf i'r frawddeg i'ch cynorthwyo.	Llyfrau iaith
---	---	--	---

		- Mae dros mil o pobl yn byw yna. (2) - Ar diwedd y blwyddyn yma bydd arholiad. (2) - Aeth y car drwy twnnel yn cyflym. (2) - Rhedodd Rhys i'r ysgol heb colli ei gwynt. (2) - Cerddais at gwely yn y gornel a mynd i cysgu. (2) - Cysgododd y bechgyn dan pont lydan tn y tref. (2) - Dewch i'r parti i dathlu penblwydd y ferch bach. (2) - Mae'r cath du yn pert. (3) - Mae dy cot ar ei cadair. (2) - Gan gwy ges di hwnna? (1) - Ewrop- Lluniwch dabl yn eich llyfrau yn nodi'r treigladau meddal i gynorthwyo chi gyda'r dasg. Ewch ymlaen i ysgrifennu'r brawddegau canlynol, gan ysgrifennu'r geiriau yr ydych yn treiglo mewn lliw gwahanol. - Mae dros ____ o ____ yn byw yna. (mil/pobl) - Ar ____ y ____ yma bydd arholiad. (diwedd/blwyddyn) - Aeth y car drwy ____ yn _____. (twnnel/cyflym)	
--	--	---	--

		4. Rhedodd Rhys i'r ysgol heb ____ ei ____. (colli/gwynt) 5. Cerddais at ____ yn y gornel a mynd i ____. (gwely/cysgu) 6. Cysgododd y bechgyn dan ____ lydan tn y ____. (pont/tref) 7. Dewch i'r parti i ____ penblwydd y ferch ____. (dathlu/bach) 8. Mae'r ____ yn ____. (cath/du/pert) 9. Mae dy ____ a rei ____. (cot/cadair) 10. Gan ____ ges di hwnna? (pwyl)	
15 munud Sesiwn Gloi	• Tacluso'r dosbarth • Crynhoi- pa lythrennau sy'n treiglo'n feddal? • Beth yw'r rheolau?	• Tacluso'r dosbarth • Gallu adrodd yn ôl beth mae nhw wedi ddysgu am y treiglad meddal • Beth yw'r rheolau?	

Gwaith Cartref- Treigladd Meddal

Gwiriwch y brawddegau isod gan dreiglo'n feddal.
Mae'r nifer o dreigladdau yn y frawddeg wedi eu hysgrifennu drws
nesaf i'r frawddeg.

1. Mae dros mil o pobl yn byw yna. (2)
2. Ar diwedd y blwyddyn yma bydd arholiad. (2)
3. Aeth y car drwy tunnel yn cyflym. (2)
4. Rhedodd Rhys i'r ysgol heb colli ei gwynt. (2)
5. Cerddais at gwely yn y gornel a mynd i cysgu. (2)
6. Cysgododd y bechgyn dan pont lydan tr y tref. (2)
7. Dewch i'r parti i dathlu penblwydd y ferch bach. (2)
8. Mae'r cath du yn pert. (3)
9. Mae dy cot ar ei cadair. (2)
10. Gan pwy ges di hwnna? (1)

Gwaith Cartref- Treigladd Meddal

Llenwch y bylchau yn y brawddegau gan ddefnyddio'r gair sydd yn
y cronfachau. Cofiwch dreiglo'n feddal!

1. Mae dros ____ o ____ yn byw yna. (mil/pobl)
2. Ar ____ y ____ yma bydd arholiad. (diwedd/blwyddyn)
3. Aeth y car drwy ____ yn ____ (twnnel/cyflym)
4. Rhedodd Rhys i'r ysgol heb ____ ei ____ (colli/gwynt)
5. Cerddais at ____ yn y gornel a mynd i ____ (gwely/cysgu)
6. Cysgododd y bechgyn dan ____ lydan tn y ____ (pont/tref)
7. Dewch i'r parti i ____ penblwydd y ferch ____ (dathlu/bach)
8. Mae'r ____ yn ____ (cath/du/perf)
9. Mae dy ____ a rei ____ (cot/cadair)
10. Gan ____ ges di hwnna? (pwy)

Gwaith Cartref- Treigladau Meddal

Gwiriwch y brawddegau isod gan dreiglo'n feddal.

1. Mae dros mil o pobl yn byw yna.
2. Ar diwedd y blwyddyn yma bydd arholiad.
3. Aeth y car drwy tunnel yn cyflym.
4. Rhedodd Rhys i'r ysgol heb colli ei gwynt.
5. Cerddais at gwely yn y gornel a mynd i cysgu.
6. Cysgododd y bechgyn dan pont lydan i'n y tref.
7. Dewch i'r parti i dathlu penblwydd y ferch bach.
8. Mae'r cath du yn pert.
9. Mae dy cot ar ei cadair.
10. Gan pwy ges di hwnna?

Treigladd Meddal



Cynllun Gwers Cam 1


Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers





Darpar Athro	Alyssa Williams	Dosbarth:	Derbyn
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	laith a Llythrennedd	Dyddiad:	26/11/19
Ffocws Gwers:	Tric a Chlic- ffurfio geiriau 3 neu 4 llythyren		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Addysgeg a dysgu proffesiynol – adnabod geirfa addas sut i helpu plant ddysgu- geirfa a ddefnyddiwyd gan Tric a Chlic Addysgeg – Deall a chyfleu ystod o ddibenion ac arferion ar gyfer asesu.		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Llythrennedd – ffurfio geiriau 3 neu 4 llythyren, adnabod llythrennau a synnau, ffurfio a sillafu gan ddefnyddio Tric a Chlic Rhifedd – cyfri sillafau, cyfri llythrennau Cymhwysedd Digidol – bwrdd gwyn digidol		


Amser 1 awr	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
10 munud Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Defnyddio cardiau Tric a Chlic i ymarfer llythrennau ac i ymarfer ffurfio geiriau syml 3 llythyren a 4 llythyren. Gofyn cwestiynau i'r plant am llythrennau- melyn a coch, geiriau 3 llythyren, glas geiriau 4 llythyren llythrennau i ymarfer coch- llythrennau mwy syml, melyn a coch- llythrennau fel 'll', 'rh', 'ph'	Ymateb i fy nghwestiynau Tric a Chlic ac adnabod geiriau a llythrennau Cofio'r gwahaniaeth rhwng llythyren a gair	Cardiau Tric a Chlic ar gyfer ymarfer
35 munud Addysgu a Dysgu Craidd	Llyfrau wedi eu paratoi cyn y wers Cefnogi a gofyn cwestiynau sydd yn berthnasol Arsylwi i sicrhau bod nhw'n gwneud y gwaith yn gywir Gofyn cwestiynau i weld os ydyn nhw'n deall/os ydyn nhw'n gwneud yn anghywir dim dweud 'na' ond gofyn a ydyn nhw'n meddwl bod hwnna'n gywir? Ydych chi'n siŵr? Ai hwn yw fel ydyn ni'n ysgrifennu'r llythyren yna?	Ffurio geiriau yn y llyfr drwy adnabod beth yw'r lluniau- llythrennau unigol yn gyntaf Ymarfer y llythrennau wedyn ysgrifennu'r gair o dan yn annibynnol	Llyfrau iaith Tafenni wyddor i roi cymorth os oes angen


15 munud Sesiwn Gloi	Casglu yn ôl ar y carped cyn cinio Mynd drwy'r cardiau Tric a Chlic i weld beth maen nhw wedi dysgu ac i asesu pwy sydd wedi dysgu a phwy sydd angen fwy o gymorth Efallai gwneud gwers yn debyg eto i ehangu ar y ddealltwriaeth Cofio bod coch, melyn a glas yn cael llythrennau neu eiriau sydd yn addas tuag at y grŵp gallu	Tacluso'r dosbarth Casglu yn ôl ar y carped ac ateb cwestiynau i ddangos dealltwriaeth Ateb cwestiynau cyn mynd i olchi dwylo i ddangos pwy sydd yn gwybod beth a phwy/pa grŵp sydd angen gwneud y dasg Ateb cwestiynau yn gywir/trio eu gorau i fod yn gywir- dim ateb dwl	Cardiau Tric a Chlic
--	---	--	-----------------------------





















Mae'r 6 llun canlynol yn dangos Gwaith sydd wedi eu marcio gennyf i.





T Geni

Nod: Trefnu stori'r Geni

9/12/19


ee





✓ Trafod yn gyntaf.

Nod: Trefnu stori'r Geni

y g e n i a










✓ 5/12/19

Trafod a threfnu fel grŵp



8. Arddodiaid

Pwrpas arddodiaid yw dangos y berthynas rhwng gair ac enw/rhagenw.

Dyma'r arddodiaid fwyaf cyffredin:

am	ar	at	gan
	heb	i	o
		dan	
dros	trwy	wrth	hyd

Os yw'r arddodiaid yn rhedadwy, gallant roi gwybodaeth i ni am y person/peth y maent yn cyfeirio atynt.

e.e. yr arddodiaid '*amdanaf fi*', gwyddwn ei fod yn cyfeirio at y person cyntaf sef *fi*.

Pwysig—pan mae arddodiad yn rhedeg, rhaid defnyddio'r ffurfiau priodol

	Ar	
arnaf fi		arnom ni
arnat ti		arnoch chi
arno ef/arni hi		arnynt hwy

Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio arddodiaid arbennig ar ôl rhai berfenwau neu gall effeithio ar eu hystyr.

Dyma rai berfenwau sydd ag arddodiaid arbennig yn eu dilyn.

adrodd am/wrth	credu yn/am	dianc rhag	gweddio ar/am/dros	rhyfeddu at
anghofio am	cyd-weld â	disgwyl am/i	gweiddi ar/am	siarad â/am
amddiffyn rhag	cyfarfod â	dweud wrth/am	gwrando ar/am	sôn wrth/am
anelu at	cyffwrdd â	dylanwadu ar	hiraethu am	sylwi ar
anfon at/i	cyhuddo o	dysgu i/am	llwyddo i	synnu at
apelio at/ar	cynnig i/am	estyn at/	maddau i	talw i/am
atal rhag	cytuno â	ffarwelio â	mynd at/i	ufuddhau i
ateb dros	chwerthin am	gadael i	peidio â	ychwanegu at
bodloni ar/i	chwilio am/i	gafael yn/mewn	pwysu ar	ymdrin â
caniatu i	dangos i/sut	gofalu am	rhedeg at/ar	ymladd â/dros
clywed am/gan	dial ar	gofyn i/am	rhoi i/am	ymosod ar
cofio am		gwahardd rhag		ysgrifennu at/i

Cofiwch: Nid oes angen arddodiad yn dilyn y ferf *sylweddoli*.



Ymarfer Adolygu Rhannau Ymadrodd

1. Rhowch **luosog** yr enwau hyn, e.e. ysbyty > ysbytai

- i) arolygwr arolygwyr ✓
- ii) disgybl disgyblion ✓
- iii) adran adrannau ✓
- iv) dogfen dogfennau ✓
- v) pennaeth pennaethiaid ✓

2. Rhowch **unigol** yr enwau hyn, e.e. arholiadau > arholiad

- i) rhieni rhiant ✓
- ii) plant plentyn ✓
- iii) ffeithiau ffaith ✓
- iv) pynciau punc ✓
- v) cynlluniau cynllun ✓

3. Pa rannau ymadrodd sydd o dan sylw yma? e.e. iechyd = enw

- i) apelio at araddodiad ✓
- ii) coleg enw ✓
- iii) addysgol → ansoddair ✓
- iv) daeth berfentan ✓
- v) ei fag rhagenw ✓
- vi) siarad berfenuw ✓
- vii) cysgu'n dawel ansoddair ✓
- viii) y sefyllfa ddwyieithog y fannod ✓

ol / us = ansoddair

(Arddodiaid—parhad)

Rhedeg yr Arddodiaid

Pan mae rhagenw yn dilyn arddodiad mae angen rhedeg yr arddodiad hwnnw.

(Pan mae ffurf ffurfiol gyfarwydd i rediad yr arddodiad, mae wedi cael ei ddangos mewn ysgrfen italig.)	am amdana(f) i amdanat ti amdano ef/fe amdani hi amdanon ni amdanoch chi amdanon nhw	ar arna(f) fi arnat ti arno ef/fe arni hi arnon ni arnoch chi arnon nhw
at ataf i atat ti ato ef/fe ati hi aton ni atoch chi aton nhw	gan gennyf i/gen i gennyti ti/gen ti ganddo ef/fe ganddi hi gennym ni/gynnon ni gennyh chi/gynnoch chi ganddyn nhw	heb hebdo i hebddot ti hebdo ef/fe hebdi hi hebddon ni hebddoch chi hebddyn nhw
i i mi/fi i ti iddo ef/fe iddi hi i ni i chi iddyn nhw	o ohono(f) i ohonot ti ohono ef/fe ohoni hi ohonon ni ohonoch chi ohonyn nhw	dan dana(f) i danat ti dano ef/fe dani hi danon ni danoch chi danyndyn nhw
tros/dros trosof fi/drosto i trosot ti/drostot ti trosto ef/drosto fe trosti hi/drosti hi trosom ni/droston ni trosoch chi/drostoch chi trostyn nhw/drostoch chi	trwy trwof i/trwyddo i trwyddot ti trwyddo fe trwyddo hi trwom ni/trwyddon ni trwoch chi/trwyddoch chi trwyddyn nhw	wrth wrthyf i/wrtho i wrthot ti/wrthyt ti wrtho ef/fe wrthi hi wrthon ni wrthoch chi wrthyn nhw
rhwng rhyngo(f) i rhyngot ti rhngddo ef/fe rhngddi hi rhngon ni rhngoch chi rhngddyn nhw	yn yno(f) i ynot ti ynddo ef/fe ynddi hi ynon ni ynoch chi ynddyn nhw	rhag rhagddo i rhagddot ti rhagddo ef/fe rhagddi hi rhagddon ni rhagddoch chi rhagddyn nhw

Gwallau 3.14

Arddodiaid ar ôl berfau

Ym mhob un o'r brawddegau yn yr uned hon, mae dau bosiblirwydd: bydd yr arddodiad sy'n dilyn y ferf yn gywir mewn un ohonynt ac yn anghywir yn y llall. Weithiau, mae'n bosibl na fydd angen arddodiad o gwbl.

Tasg i'r dosbarth

[Cymraeg Da: Adran 4]

Darllenwch y brawddegau fesul dwy gyda phartner a phenderfynu pa un sy'n gywir. Rhoddir pum munud ar ddiwedd y sesiwn i bawb gymharu eu hatebion.

1. a Nododd yr arddodiad fod mwy o bobl yn gwrandao i'r radio y dyddiau hyn na deng mlynedd yn ôl.
b Nododd yr arddodiad fod mwy o bobl yn gwrandao ar y radio y dyddiau hyn na deng mlynedd yn ôl. ✓
2. a Bob Nadolig, mae hi'n ysgrifennu i w modryb i ddolch iddi am ei hanheg.
b Bob Nadolig, mae hi'n ysgrifennu at ei modryb i ddolch iddi am ei hanheg. ✓
3. a Bydd ei modryb yn anfon anheg ati bob Nadolig.
b Bydd ei modryb yn anfon anheg iddi bob Nadolig. ✓
4. a Aethant i mewn i'r siop i guddio o'r glaw.
b Aethant i mewn i'r siop i guddio rhag y glaw. ✓
5. a Mae'n bwysig dweud y gwir i bawb ar ôl popeth a ddigwyddodd.
b Mae'n bwysig dweud y gwir wrth bawb ar ôl popeth a ddigwyddodd. ✓
6. a Penderfynaist ti beidio â mynd i weld y ddrama, wedi'r cyfan.
b Penderfynaist ti i beidio â mynd i weld y ddrama, wedi'r cyfan. ✓
7. a Gofynnais wrtho am gael benthyg ugain punt.
b Gofynnais iddo am gael benthyg ugain punt. ✓
8. a Yr oedd yn hyfryd clywed oddi wrth ein perthnasau yn yr Eidal.
b Yr oedd yn hyfryd clywed o'n perthnasau yn yr Eidal. ✓
9. a Aeth y cadeirydd i siarad â phawb cyn y cyfarfod.
b Aeth y cadeirydd i siarad i bawb cyn y cyfarfod. ✓
10. a Bydd y tren nesaf yn cyrraedd yng ngorsaf Abertawe am 18.35.
b Bydd y tren nesaf yn cyrraedd gorsaf Abertawe am 18.35. ✓
11. a Cofiwch fi at eich rhieni pan welwch chi nhw nesaf.
b Cofiwch fi i'ch rhieni pan welwch chi nhw nesaf. ✓
12. a Dechreuodd y cor ganu am saith o'r gloch heno.
b Dechreuodd y cor i ganu am saith o'r gloch heno. ✓
13. a Ymwelwn ni o ogonionau'r Eidal y flwyddyn nesaf.
b Ymwelwn â rhai o ogonionau'r Eidal y flwyddyn nesaf. ✓
14. a Edrychwn ymlaen at eich gweld yn y cyfarfod nesaf.
b Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn y cyfarfod nesaf. ✓
15. a Yr oedd y ddau fachgen yn ymladd gyda'i gilydd.
b Yr oedd y ddau fachgen yn ymladd â'i gilydd. ✓

7. AN + D = ANN

an	+	dymunol	=	annymunol
an	+	dedwydd	=	annedwydd

8. AN + T = ANNH

an	+	teg	=	annheg
an	+	tebyg	=	annhebyg

9. Cofiwch dim ond 2 gytsain (+h) *efo'i gilydd* felly:

an	+	tr	=	anhr
an	+	trefn	=	anhrefnus
an	+	trugarog	=	anhrugarog

10. *Nid* oes dyblu **N + R** ar ôl y terfyniadau (endings) yma:

	-	ion
gwyn		gwynion

	-	iad
diflannu		diflaniad

Gorffenn



Tasg 1

Rhowch 'eg,' neu 'eb,' wrth ochr pob un o'r enwau hyn.

gagair	tri phapur	tair ddrama	tair galon
cadair	papur	drama eb	calon eb
eg	tri theulu	trichws	tri teledu
myfyriwr	teulu eg	cwrs eg	teledu eg
ysgrifenyddes	tair rhaff eb	tair ddinas	tair goeden
eg		dinas eb	coeden eb

Nawr, rhowch y gair am 3 o flaen pob un. Treiglchw os oes angen.

Tasg 2

Rhowch yr enwau isod yn y golofn gywir.

angladd, coes, gwasanaeth, gweithgaredd, plentyn, ystafell, cusan, afal, penderfyniad, pennill, llinell, rhestr, trafnidiaeth.

Enw gwrywaidd	Enw benywaidd	Enw gwrywaidd/benywaidd
angladd gweithgaredd plentyn cusan afal pennill penderfyniad	coes gwasanaeth ystafell llinell rhestr trafnidiaeth	angladd cusan

y goe:
y was
y ysto
y yline
y rest
y draf

Nawr, rhowch 'y' neu 'yr' o flaen pob un.

Tasg 3

Mae gan y geiriau hyn ddau luosog. Beth ydyn nhw? Wedyn ysgrifennwch frawddegau (12 brawddeg i gyd) i ddangos yn glir eich bod yn deall yr ystyron.


* cyngor * cais * pryd * nodyn * gwaith * llwyth

Tasg 4

Cywirwch

1. Roedd hi'n awyddus iawn i ddatrys y ddirgelwch.
2. Derbyniodd yr adran adnoddau dynol ddeg o geisiau am y swydd.
3. Mae'r restr anrhegion priodas ar y we.
4. Bydd y ferched yn cwyno os bydda i'n hwyr.
5. Faint o'r bechgyn fydd yn mynd i'r goleg?
6. Teithiodd y llywydd i'r gynhadledd ar y drên.
7. Doedd rwydwaith y coleg ddim yn gweithio'n iawn.
8. Rwyf i'n hwyr. Beth yw'r reswm?
9. Doedd ei henw hi ddim ar y taflen.
10. Mae e wedi ennill y cystadleuaeth.
11. Tair ceffyl fydd yn neidio yn y rownd derfynol.
12. Mae pymtheg dynion mewn tîm rygbi.





7. AN + D = ANN

an	+	dymunol	=	annymunol
an	+	dedwydd	=	annedwydd

8. AN + T = ANNH

an	+	teg	=	annheg
an	+	tebyg	=	annhebyg

9. Cofiwch dim ond 2 gytsain (+h) *efo'i gilydd* felly:

an	+	tr	=	anhr
an	+	trefn	=	anhrefnus
an	+	trugarog	=	anhrugarog

10. *Nid* oes dyblu **N + R** ar ôl y terfyniadau (endings) yma:

	-	ion
gwyn		gwynion

	-	iad
diflannu		diflaniad

3. DYBLU N + R

Dim ond y ddwy lythyren yma sy'n dyblu yn y Gymraeg:

Mae N + R yn dyblu yn y sillaf olaf ond un e.e.:

carreg	caregog
pennill	penillion
ysgrifennydd	ysgrifenyddes

4. Os ydy'r gair unigol yn gorffen efo NT, daw NN yn y lluosog:

Unigol: NT	Lluosog: NN
cant	cannoedd
punt	punnoedd
diwydiant	diwydiannau

5. Ar ôl llafariad fer mae N + R yn dyblu.

ton (wave)	tonnau
byr	byrraf
glan (shore)	glannau

6. Ar ôl llafariad hir does dim dyblu N + R:

môr	moroedd
lôn	lonydd
tôn (tune)	tonau

11. i neu u ?

BERFENW: gair sy'n enwi gweithgaredd
e.e. canu ysgrifennu rhedeg

- ☆ Os oes o yng nghanol berfenw mae i ar y diwedd:
colli torri pori
- ☆ Os oes a yng nghanol berfenw mae u ar y diwedd:
canu palu malu
- ☆ Os oes y neu w yng nghanol berfenw mae u ar y diwedd:
prynu tynnu pwdu
- ☆ Os oes w ar ddiwedd berfenw mae i ar y diwedd:
sylwi berwi enwi
- Heblaw am:
mynegi, rhegi, pesgi, geni, medi, peri,
mae pob berfenw ag e yn y canol yn gorffen ag u:
anrhegu rhestru methu



Sylwch ar hyn:

rhestr <u>u</u> = berfenw (gwneud rhestr)	rhestr <u>i</u> = lluosog (mwy nag un rhestr)
cofrestr <u>u</u> = berfenw (gwneud/cymryd cofrestr)	cofrestr <u>i</u> = lluosog (mwy nag un cofrestr)



H: cymhariaeth ... ond ... cymariaethau
cynganedd ... ond ... cynganeddion/cynganeddu
anhawster ... ond ... anawsterau
Cofiwch sillafu 'er enghraifft' yn gywir!

ANSODDEIRIAU (geiriau disgrifio): (I / U / Y ?)

- Gorffen gyda 'd' > y: swllyd, drewllyd
- Gorffen gyda 's' > u: siaradus, cysurus (eithriad: melyn)
- Gorffen gyda 'g' > i: caredig, diawledig

Sillafu



Dyma 11 rheol sillafu i chi!
Os am wybod mwy, gofynnwch i'ch athro.



Hawdd yn
y Gymraeg!



ond, cofiwch
DDWEUD y gair yn
iawn!

1. Y nid U sy'n dod ar ôl W fel arfer.

ll <u>wy</u>	wy <u>th</u> nos	m <u>wy</u> nhau
dw <u>y</u>	new <u>y</u> dd	m <u>wy</u> af
pw <u>y</u>	bl <u>wy</u> ddyn	tr <u>wy</u> dded
nw <u>y</u>	pen-bl <u>wy</u> dd	n <u>wy</u> ddau
tr <u>wy</u>	ll <u>wy</u> au	gw <u>y</u> lan

2. Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio U + Y + I

Dyma rai geiriau sy'n creu trafferthion:

sut	fyny	unig
rhywun	rhywbeth	tipyn
penderfynu	gilydd	dweud
cyffrous	felly	wedyn
yfory	symud	cymryd
rygbi	llythyr	(cymerwch)

